# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 9 Chwefror 2022

Amser: 09.15 - 12.13

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12620

# Preifat, Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mark Isherwood AS (Cadeirydd)<br>Natasha Asghar AS<br>Cefin Campbell AS<br>Mike Hedges AS<br>Jack Sargeant AS |
| Tystion: | Kenneth Gibson MSP, Senedd yr Alban<br>Daniel Johnson MSP, Senedd yr Alban<br>John Mason MSP, Senedd yr Alban<br>Sarah Robertson, Senedd yr Alban |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Owain Davies (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Adrian Crompton (Archwilydd Cyffredinol Cymru)<br>Andrew Doughton |

| | |
|---|---|
| | Nick Selwyn<br>Dave Thomas<br>Jeremy Evans<br>Dave Wilson |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon – y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS. Dirprwyodd Jack Sargeant AS ar ei rhan.

## 2 Craffu ar weinyddiaeth gyhoeddus: Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

2.1 Nododd a thrafododd y Pwyllgor y dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.

## 3 Craffu ar weinyddiaeth gyhoeddus: Ffyrdd o weithio a rhannu arfer da

3.1 Trafododd yr Aelodau yr agwedd ar gylch gwaith y Pwyllgor sy'n ymwneud â chraffu ar weinyddiaeth gyhoeddus gyda chynrychiolwyr o Bwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd yr Alban.

## 4 Fframwaith Cyffredin Taliadau Hwyr (trafodion masnachol) – Fframwaith Cyffredin ar gyfer Caffael Cyhoeddus

4.1 Esgusododd Cefin Campbell AS ei hun o'r eitem hon yn sgil y ffaith ei fod yn un o Aelodau dynodedig Plaid Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio.

4.2 Trafododd y Pwyllgor y Fframweithiau Cyffredin a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru mewn perthynas â nifer o faterion.

## 5 Papur i'w nodi

### 5.1 Rhwystrau i Weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus: Llythyr gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (19 Ionawr 2022)

5.1 Nodwyd y papur.

### 5.2 COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Llythyr gan Lywodraeth Cymru ar faterion iechyd (31 Ionawr 2022)

5.2 Nododd y Pwyllgor y papur a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurder ynghylch nifer o faterion.

### 5.3 COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n gysylltiedig â chylch gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Llythyr gan Lywodraeth Cymru ar faterion llywodraeth leol (31 Ionawr 2022)

5.3 Nododd y Pwyllgor y papur.

## 6 Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru: Comisiynu Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

6.1 Trafododd y Pwyllgor adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru a chytunodd i gynnal ymchwiliad yn nhymor yr haf.

## 7 Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru: Cydweithio rhwng y gwasanaethau brys

7.1 Trafododd y Pwyllgor adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 8 Blaenraglen waith Archwilio Cymru

8.1 Nododd y Pwyllgor y bydd Archwilio Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyn bo hir ar ei raglen waith arfaethedig.

## 9 Craffu ar Gyfrifon – Comisiwn y Senedd 2020-21: Trafod yr ymateb i adroddiad y Pwyllgor

9.1 Nododd a thrafododd y Pwyllgor yr ymateb a gafwyd i adroddiad y Pwyllgor.